

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government

# Prosiect Rheoli Perygl Llifogydd Porthmadog

Rhifyn 2 | Hydref 2023

## Diweddariad ar y prosiect

**Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn gweithio i ddarganfod atebion i reoli perygl llifogydd hirdymor ar gyfer cymuned Porthmadog a Thremadog, ochr yn ochr â darparu cyfleoedd amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd ehangach.**

Drwy gydol 2022 a 2023, rydym wedi bod yn diweddaru ein model llifogydd i ddeall yn well y perygl o lifogydd yn eich ardal.

Gan ddefnyddio'r canllawiau diweddaraf, cofnodion llif afonydd sydd ar gael a ffotograffau a dynnwyd yn ystod digwyddiad gaeaf 2015, gallwn ragweld perygl llifogydd nawr, ac yn y dyfodol, gan gynnwys ystyried newid yn yr hinsawdd.

Mae'r model yn dangos nifer uwch o gartrefi a busnesau mewn perygl o Afon Glaslyn, "y Cyt" ac o'r môr.

Er ein bod yn ymwybodol y bydd hyn yn destun pryder, byddwch yn sicr ein bod yn gweithio'n galed i ddod o hyd i ateb cynaliadwy i reoli'r perygl llifogydd hwn yn y ffordd orau.

Mae Porthmadog mewn perygl llifogydd o'r ddwy afon a'r môr yn ogystal â glaw a dŵr daear.

Yn ystod llanw uchel, nid yw'r afonydd yn gallu llifo allan i'r môr ac felly mae cyfuniad o law eithafol a llanw uchel yn rhoi llawer o eiddo preswyl a masnachol mewn perygl o lifogydd.

Wrth i'n hinsawdd newid, byddwn yn gwynebu stormydd yn amlach, glawiad trwm, â lefelau môr yn codi. Bydd hyn yn golygu y bydd llifogydd difrifol yn digwydd yn amlach. Bydd hyn yn rhoi mwy o bwysau ar yr amddiffynfeydd rhag llifogydd presennol yn y dref a bydd yn effeithio ar sut y byddant yn perfformio er gwaethaf gwaith cynnal â chadw parhaus.

Rydym wedi gwneud cynnydd da ers y digwyddiadau ymgysylltu ym mis Ionawr 2023. Gyda'ch adborth a'ch mewnbwn chi, rydym wedi gallu deall y broblem ymhellach a datblygu opsiynau prosiect posibl i reoli perygl llifogydd orau.

**Mae'r Map Llifogydd presennol (Map Asesiad Perygl Llifogydd Cymru) i'w weld ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru.**

Gyda'r prosiect yn gwirio ac yn dilysu'r allbynnau o'r model llifogydd wedi'i ddiweddaru, disgwylir i'r allbynnau newydd hyn fod ar gael ar-lein yn ystod gwanwyn 2024.

# Cefndir

**Mae y rhan fwyaf o Borthmadog ar dir isel, sydd mewn perygl o lifogydd o Afon Glaslyn, Y Cyt ac o'r môr.**


Cafodd y tir ei adennill o'r môr ym 1811 pan adeiladwyd y Cob ar draws Traeth Mawr gan William Maddocks. Mae'r Cob yn atal symudiad naturiol dŵr llanw rhag cyrraedd Pont Aberglaslyn.

Mae'r bont hon wedi'i lleoli wyth cilomedr (pum milltir) i mewn i'r tir i'r gogledd, ger Beddgelert.

Mae cynnal lefel heddiw o amddiffyniad rhag llifogydd yn her gyda'r amddiffynfeydd presennol yn cael eu rhoi dan bwysau cynyddol oherwydd digwyddiadau tywydd amlach.

Mae perygl llifogydd arfaethedig o afonydd yn y model diweddaraf i'w gweld isod. Mae'n dangos erbyn heddiw bod hyd at 345 o gartrefi a 105 o fusnesau mewn perygl o brofi digwyddiad llifogydd sydd â siawns 1% o ddigwydd mewn unrhyw flwyddyn benodol.

## Perygl llifogydd o afonydd arfaethedig yn y model diweddaraf




Mae'r wybodaeth a ddangosir uchod i'w defnyddio at ddiben Ymgynghoriad Prosiect Rheoli Perygl Llifogydd Porthmadog yn unig. Nid yw'r allbynnau hyn yn derfynol ac maent yn parhau i gael eu hadolygu.

Nid yw'r mapiau hyn yn disodli'r wybodaeth perygl llifogydd sydd ar gael ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru.

Darllenwch yr ymwadiad canlynol am fanylion pellach: Cyfoeth Naturiol Cymru / Ymwadiad ar gyfer ein mapiau perygl llifogydd ac erydu arfordirol

# Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy

**Bydd y prosiect hwn yn archwilio ac yn mabwysiadu'r gwaith o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, lle bo modd.**

Bydd hyn yn cynnwys opsiynau rheoli llifogydd naturiol, ac asesiad o gyfleoedd amgylcheddol ar draws y dalgylch, gyda'r nod o gynnal a gwella bioamrywiaeth a gwytnwch ecosystemau.

# Amgylchedd Naturiol

**Mae ardal yr astudiaeth yn gymysgedd o gynefinoedd arfordirol, gwlyptir a choetir sy'n gweithredu fel coridorau gwyrdd i'r wlad o amgylch.**

Adlewyrchir pwysigrwydd amgylcheddol yr ardal hon yn y nifer fawr o gynefinoedd a rhywogaethau a warchodir.

Mae llawer o'r rhain o bwysigrwydd Cenedlaethol a Rhyngwladol ac mae'r rhain hefyd yn cael eu bygwth gan effeithiau perygl llifogydd cynyddol a newid yn yr hinsawdd.

# Beth rydym wedi bod yn ei wneud

Yn ystod 2023, mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi bod yn adolygu canfyddiadau'r model llifogydd ac yn defnyddio adborth cymunedol i ddatblygu rhestr o opsiynau posibl i leihau perygl llifogydd i bobl a chartrefi.

Dros y chwe mis diwethaf, rydym hefyd wedi bod yn gwneud y canlynol:-

- Cynnal arolygon amgylcheddol newydd fel rhan o waith casglu tystiolaeth
- Cynnal cyfarfodydd unigol gyda rhanddeiliaid a'r gymuned
- Gweithio gyda phartneriaid lleol i gasglu profiadau a mewnwelediadau
- Parhau i drafod ac ymweld ag ysgolion lleol Porthmadog
- Datblygu cysylltiadau gyda Phrifysgolion lleol drwy ein tîm addysg




Cyflwynwyd byrddau gwybodaeth y Prosiect yng Nghanolfan Gymunedol ym mis Ionawr 2023

# Beth rydym yn ei wneud ar hyn o bryd

**Rydym yn gweithio drwy'r rhestr hir o opsiynau cynllun posib i leihau perygl llifogydd i bobl a chartrefi yn ardal Porthmadog a Thremadog.**

Gan ddefnyddio'r dystiolaeth a'r adborth a gasglwyd hyd yn hyn, a gweithio gyda rhanddeiliaid, byddwn yn gwerthuso'r rhestr hir hon o opsiynau i lunio rhestr fer arfaethedig.

Byddwn yn asesu pob opsiwn yn erbyn ffactorau llwyddiant critigol a fydd yn cynnwys gwerth am arian, cynaliadwyedd, a hyfywedd cyfreithiol a thechnegol.

Rydym yn bwriadu rhannu canfyddiadau'r asesiad drafft a'r rhestr fer ddrafft o opsiynau a argymhellir, i'w hystyried ymhellach gyda'r gymuned, yn gynnar yn 2024.

Mae ein hamserlenni wedi newid, ond mae'n bwysig nad ydym yn rhuthro ar y camau hanfodol hyn a gobeithiwn y bydd y diweddariad hwn yn rhoi gwybod i chi am ein cynnydd hyd yn hyn.

# Llinell amser y Prosiect a'r camau nesaf

## Hyd Yma
**Gwaelodlin**

Rydym wedi gwella ein dealltwriaeth o'r perygl llifogydd ac wedi dechrau datblygu rhestr hir o opsiynau gydag adborth gan randdeiliaid a'r gymuned.

## Hydref 2023
**Opsiynau Rhestr Hir**

Byddwn yn asesu'r rhestr hir o opsiynau yn erbyn Ffactorau Llwyddiant Critigol i'n helpu ni i adnabod rhestr fer o opsiynau ar gyfer asesiad manylach.

## Yn Gynnar 2024
**Opsiynau Rhestr Fer**

Rydym yn bwriadu ymgynghori â'r cyhoedd ynglŷn â'r rhestr fer ddrafft o opsiynau. Ar ôl hynny, bydd y rhestr fer derfynol yn cael ei dewis a bydd archwiliadau safle yn cael eu cwblhau.

## Haf 2024
**Opsiwn a Ffefrir**

Byddwn ymgynghori â'r cyhoedd ynglŷn â'r opsiwn a ddewiswyd o'r rhestr fer. Bydd hyn yn defnyddio gwybodaeth o archwiliadau tir ac yn cynnwys dyluniadau amlinellol.

Rydym yn bwriadu cynnal digwyddiadau ymgynghori cyhoeddus o fis Ionawr 2024 ymlaen a hoffem glywed eich barn ar yr asesiad a'r rhestr fer ddrafft o opsiynau.

Bydd cadarnhad o'r dyddiadau a'r manylion yn cael ei anfon yn y post, a thrwy e-bost ddiwedd mis Rhagfyr 2023.

Bydd ein gwefan yn cael ei diweddaru drwy gydol y prosiect gyda newyddion ac ymatebion i gwestiynau cyffredin.

| | |
|---|---|
| **2025** | Dyluniad manwl o'r opsiwn a ffefrir, yn amodol ar gymeradwyo'r achos busnes |
| **2026** | Ceisiadau caniatâd statudol |
| **2027** | Adeiladu'r opsiwn a ffefrir, yn amodol ar gyllid a chymeradwyaeth |

# Cadw mewn cysylltiad – Sut i gymryd rhan

**Rydym eisiau clywed gennych er mwyn i ni allu parhau i ddeall effaith llifogydd ar eich cymuned.**

Gwneir hyn er mwyn gallu ystyried yr opsiynau gorau ar gyfer rheoli'r perygl ac archwilio cyfleoedd amgylcheddol a chymdeithasol ehangach.

**Hyd yn oed os ydych wedi gwneud hynny o'r blaen, cysylltwch â ni os hoffech gael gwybod mwy ac i rannu eich barn a'ch sylwadau gyda ni.**

**Andrew Basford, (Dysgwr Cymraeg)**
**Rheolwr y Prosiect**
**0300 065 3846**

**Sharon Parry, (Siaradwr Cymraeg)**
**Swyddog Cymorth y Prosiect**
**0300 065 5264**

**Cyfoeth Naturiol Cymru, Swyddfa Bangor, Maes y Ffynnon, Gwynedd, LL57 2DW**

**Ewch i wefan ein prosiect am ragor o fanylion:**

**porthmadog.floodrisk@grasshopper-comms.co.uk**